

# SOSIALAETH: GWEITHGAREDDAU

## Cwestiynau byr (A01, A02)

Ceisiwch lunio atebion byr ar gyfer y cwestiynau isod:

Eglurwch beth yw prif nodweddion y dehongliad sosialaidd o gydraddoldeb.
Eglurwch pam roedd Karl Marx o'r farn bod cwmp cyfalafiaeth yn anochel yn y pendraw.
Beth oedd rhai o brif nodweddion y gymdeithas gomiwnyddol a gafodd ei dychmygu gan Marx ac ym mha ffyrdd roedd y systemau comiwnyddol a ddaeth i fodolaeth yn ystod yr ugeinfed ganrif yn wahanol?
Pam fod y democrataid cymdeithasol wedi dod i'r casgliad y gellid cyflwyno sosialaeth trwy ddulliau democrataidd?
Yn nhyb democrataid cymdeithasol, pa fath o bolisiau sydd angen eu mabwysiadu er mwyn ffrwyno elfennau mwyaf niweidiol cyfalafiaeth?
Pam fod nifer o sosialwyr wedi dadlau o blaid gosod cyfyngiadau ar y berchnogaeth preifat o eiddo?

Wrth baratoi eich atebion meddyliwch yn ofalus ynglŷn a'r pwyntiau canlynol:

- i) **Gwybodaeth:** Er mwyn dangos eich bod yn meddu ar wybodaeth eang a manwl meddyliwch yn ofalus am y gwahanol fathau o gysyniadau, egwyddorion, meddylwyr sydd angen eu trafod er mwyn ateb y cwestiwn yn llawn.
- ii) **Eglurder:** Er mwyn sicrhau eich bod yn cyflwyno eich gwybodaeth mewn modd clir ac eglur, meddyliwch yn ofalus am sut i strwythuro eich ateb. Meddyliwch ym mha drefn y dylid gosod eich pwyntiau er mwyn sicrhau bod eich ateb yn llifo'n esmwyth.
- iii) **Perthnasedd:** Er mwyn sicrhau bod eich ateb yn trafod pwyntiau perthnasol sicrhewch eich bod yn deall beth yn union mae'r cwestiwn yn gofyn i chi ei wneud ac yna sicrhewch eich bod ond yn cynnwys deunydd perthnasol i'r cwestiwn fel rhan o'r ateb.